Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gyfun Trefynwy
Old Dixton Road
Trefynwy
Sir Fynwy
NP25 3YT

30/01/2025

Annwyl Hugo Hutchison

**Ymweliad interim:** Ionawr 2025

Diolch am eich cymorth yn trefnu ein hymweliad interim â'r ysgol ar 21 a 22 Ionawr 2025. Mwynhaom y cyfle i gyfarfod â chi, eich staff a'ch disgyblion, a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd. Roedd yn hyfryd gweld y ffordd yr oedd eich staff yn elwa ar y broses, a'r didwylledd a ddangoswyd ganddynt yn ystod trafodaethau.

Yn ystod yr ymweliad, buom yn trafod y cynnydd y mae'r ysgol wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion gydag arweinwyr, athrawon a staff cymorth. Cawsom gyfle hefyd i:

- Siarad â disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â sampl o wersi ar draws y cwricwlwm i weld disgyblion a staff yn gwneud eu gwaith.
- Craffu ar sampl o waith disgyblion.
- Ymgymryd â gweithgareddau craffu ar waith ac arsylwi gwersi ar y cyd ag arweinwyr a thrafod y prif ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau prosesau i wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn fuddiol clywed am sut mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'r staffio yn briodol, yn cynnwys penodi Swyddog Presenoldeb. Er mai megis dechrau y mae

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

hyn, mae'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd i nodi disgyblion sydd â phatrymau o ostyngiad yn eu presenoldeb yn gynnar, a chanolbwyntio ar wella presenoldeb grwpiau o ddysgwyr.

Roedd yn hyfryd clywed am y ffocws rydych chi wedi'i roi ar sicrhau perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff, disgyblion a'u teuluoedd. Mae staff yn gweithio gyda theuluoedd yn sensitif i nodi rhwystrau a chytuno ar gymorth teilwredig i wella presenoldeb disgyblion. Yn ein cyfarfodydd, clywsom hefyd am y dysgu proffesiynol i helpu staff i wella presenoldeb trwy eu cyfathrebu uniongyrchol â theuluoedd.

Ers yr arolygiad craidd, bu cynnydd o ran presenoldeb cyffredinol a chynnydd o ran presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Gallai fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gallwch chi nodi pa strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- Sut ydych chi'n monitro'r strwythur staffio newydd i sicrhau bod presenoldeb disgyblion yn parhau i wella?

**Mireinio prosesau hunanwerthuso fel eu bod yn canolbwyntio'n fanylach ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu'r disgyblion**

Ers adeg yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi gweithio i gryfhau ei phrosesau hunanwerthuso. Mae calendr clir o weithgareddau i gael gwybodaeth uniongyrchol am ansawdd yr addysgu, a gefnogir gan gyfarfodydd rheolaidd rheolaeth llinell. Mae staff wedi datblygu system ddefnyddiol i gofnodi cynlluniau gwella a chanfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso. Er gwaethaf hyn, mae gormod o amrywioldeb o hyd ymhlith gwerthusiad arweinwyr o effaith y ddarpariaeth ar ddysgu. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae arweinwyr yn gwahaniaethu'n glir rhwng addysgu a'r cynnydd a wna disgyblion yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau sy'n cefnogi cynllunio gwelliant mwy manwl gywir. Fodd bynnag, ceir achosion lle nad yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar ddysgu yn ddigon agos ac nid ydynt yn cynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon manwl. Er bod arweinwyr wedi cefnogi ei gilydd a'r staff y maent yn eu harwain wrth hunanwerthuso, nid ydynt wedi cael cynnig dysgu proffesiynol targedig ar sut i werthuso effaith darpariaeth ar ddysgu.

Gallai fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut byddwch chi'n rhannu'r arfer dda a nodwyd yn ystod yr ymweliad hwn?
- Pa ddysgu proffesiynol fyddai'n helpu arweinwyr i werthuso effaith darpariaeth ar ddysgu'r disgyblion?

**Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am y Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru**

Roedd yn ddiddorol clywed bod adran y Gymraeg wedi canolbwyntio ar ddatblygu medrau llafaredd disgyblion i ymestyn eu rhuglder a'u hyder yn defnyddio'r iaith. Clywsom fod disgyblion yn elwa ymhellach ar fentrau difyr fel 'Clwb Clecs,' sy'n cynnig cyfleoedd anffurfiol iddynt ymarfer y Gymraeg. Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i gynorthwyo athrawon i ymgorffori ymadroddion a sylwadau Cymraeg ar draws y cwricwlwm, a oedd yn amlwg yn ystod yr ymweliad. Yn ein trafodaethau, clywsom fod hyrwyddo ethos Cymreig yn flaenoriaeth allweddol, gyda ffocws ar ddatblygu cyfoeth diwylliannol trwy weithgareddau fel gwrando ar siaradwyr gwadd a pherfformiadau gan artistiaid o Gymru. Mae'r ysgol wedi cryfhau cysylltiadau â sefydliadau allanol hefyd i roi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio manteision dwyieithrwydd trwy ymweld â phrifysgolion yng Nghymru a rhyngweithio â gweithwyr proffesiynol.

Gallai fod yn ddefnyddiol i'r ysgol ystyried:

- Sut gallwch chi wreiddio'r Gymraeg ar draws holl feysydd y cwricwlwm i gryfhau rhuglder a hyder disgyblion?
- Sut gallwch chi sicrhau bod pob un o'r staff yn defnyddio'r iaith fel rhan o'u harferion bob dydd?

Diolch eto am eich holl gymorth yn cynllunio ac yn trefnu ein hymweliad. Rydym yn dymuno'n dda i chi â'ch datblygiadau yn y dyfodol.

Gellir gweld adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a chael mwy o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan:
[http://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/6794060](http://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/6794060)

Yn gywir

**Catherine Evans**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol